# Dogfen Ymgynghori

## Cynnig i gau Ysgol Gynradd Rhydri

9 Medi 2024 – 22 Hydref 2024



Mae'r ddogfen hon ar gael yn electronig yn
https://www.caerffili.gov.uk/cymunedau-dysgu-cynaliadwy

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Gellir darparu gwybodaeth mewn fformatau, ieithoedd ac ar ffurf copi caled ar gais. Cysylltwch â ni ar 01443 864817 / Ysgolionyr21ainGanrif@caerffili.gov.uk i drefnu hyn.

CAERPHILLY COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

## TABL CYNNWYS


**Rhagarweiniad**

- Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?
- Beth rydym yn cynnig ei wneud?

**Y Broses Ymgynghori**

- Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?
- Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?
- Safbwyntiau plant am y cynnig

**Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?**

- Gwybodaeth Gefndir
- Cynllunio Lleoedd Ysgol
- Galw a Ragamcenir

**Sut y bydd hyn yn effeithio ar ysgolion eraill?**

- Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar
- Trefniadau'r Dalgylch
- Effaith ar Ysgolion Eraill
- Amharu ar ddisgyblion
- Darpariaeth Uwchradd

**Beth fydd effaith y cynnig?**

- Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg
- Trefniadau Llywodraethu a Chategoreiddio'r Ysgol
- Materion yn ymwneud â'r Staff
- Materion Ariannol
- Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Asesiad Effaith Integredig – Effaith Cymunedol ac ar y Gymraeg
- Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol a Strategaeth Datgarboneiddio

**Beth yw manteision y cynnig?**

- Manteision, Anfanteision, Risgiau
- Fframwaith Opsiynau
- Opsiwn a Ffefrir ac Opsiynau sydd wedi cael eu Diystyru

**Y Camau Nesaf**

- Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol
- Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau
- Dweud eich dweud

# RHAGARWEINIAD

## Beth yw cynnwys y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn yn berthnasol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerffili a gall fod o ddiddordeb penodol i rieni/gwarcheidwaid plant sy'n mynychu, neu sy'n disgwyl mynychu, safleoedd presennol Ysgol Gynradd Rhydri.

Mae'r llyfryn hwn yn nodi'r newidiadau rydym yn eu hawgrymu i'r cyfleuster addysg cynradd hwn yn y Fwrdeistref a'r rhesymau dros y newidiadau arfaethedig hyn.

Mae'r broses ymgynghori yn cynnig cyfle i bobl ddysgu am y cynnig, gofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu cofnodi a'u crynhoi mewn adroddiad ar yr ymgynghoriad. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor a'i ystyried pan fydd y Cabinet yn penderfynu sut i weithredu.

## Beth rydym yn cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn dymuno gwneud 'newid rheoledig' i ysgol a gynhelir yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Oherwydd bod nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Rhydri yn gostwng, trefnwyd amryw gyfarfodydd gan y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Lleol, gan gynnwys y Prif Swyddog Addysg, i drafod hyfywedd yr ysgol yn y dyfodol.

Cytunwyd yn y cyfarfod ym mis Mawrth 2024, na allai'r ysgol bellach gynnal cyllideb gytbwys a lefel staffio briodol, felly gwnaed penderfyniad gan Bennaeth a Chorff Llywodraethu yr ysgol i gau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025.

Rydyn ni'n cynnig:

- **Cau Ysgol Gynradd Rhydri**

Mae'r cynnig yn ymwneud â chau Ysgol Gynradd Rhydri o fis Gorffennaf 2025, yn dilyn cais i ymgynghori gan Gorff Llywodraethu'r Ysgol a wnaed yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024.



# Y BROSES YMGYNGHORI

## Pwy rydym yn cynnal trafodaethau â nhw?

Drwy fodel TîmCaerffili - Yn Well gyda'n Gilydd, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion i'r cymunedau yn ein bwrdeistref sirol. Wrth sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn addas i'r dyfodol, rydym yn cydnabod bod angen defnyddio gweithgareddau ymgysylltu effeithiol sy'n rhan ganolog o'n proses benderfynu - Darllenwch fwy am ein dull o Ymgynghori ac Ymgysylltu yma

Ar gyfer y cynnig hwn, mae'n rhaid i'n proses ymgynghori ddilyn canllawiau statudol Llywodraeth Cymru fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Mae rhwymedigaeth arnom i hysbysu'r canlynol o'n cynigion mewn llythyr neu dros e-bost:

| **Tabl 1: Rhestr o Ymgyngoreion** | |
|---|---|
| Disgyblion/Cynghorau Disgyblion * | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni, darpar rieni, gwarcheidwaid a gofalwyr holl ddisgyblion* | Pob Aelod Cynulliad ac Aelod Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan yr ysgolion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn uniongyrchol* |
| Pennaeth, Staff a Chyrff Llywodraethu* | Aelodau lleol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Cyfarwyddwyr Addysg Awdurdodau Cyfagos | Cynghorau Cymuned a Thref lleol |
| Cymdeithasau Staff Addysgu a Staff Cymorth | Estyn |
| Y Rhwydwaith Rhieni | Y Fforwm Addysg Gymraeg |
| Cyfarwyddwyr / Byrddau Addysg Esgobaethol | Consortiwm De Ddwyrain Cymru (EAS) |
| Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru | Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru (SEWTA) |
| Y Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant | Mudiad Meithrin, Menter Iaith a darparwyr meithrin gwirfoddol |

**ysgolion y bydd y cynnig yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, neu y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt, yn unig*

***Noder:***

- Caiff yr holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad.
- Caiff yr Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer adolygiad cychwynnol a chymeradwyaeth, a'r Cabinet fydd yn gyfrifol am y gymeradwyaeth derfynol i barhau i'r cam nesaf.
- Bydd aelodau'r Cabinet yn cael copïau o'r holl ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn eu fformat gwreiddiol fel rhan o'r broses benderfynu.
- Ni chaiff unrhyw ymatebion negyddol a wneir yn ystod y cyfnod ymgynghori eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig, yn hytrach cânt eu cofnodi fel sylwadau anffafriol.
- Dim ond ar ôl i hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi, sef ail gam y cynnig, yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Cabinet, y gellir cofrestru gwrthwynebiadau i gynnig.

## Sut y gallwch gael rhagor o wybodaeth?

Yn ôl Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi gwybodaeth i wneud penderfyniadau mewn ffordd dryloyw, gytbwys ac agored wrth gwblhau proses ymgynghori mewn cysylltiad â chynnig ar gyfer ysgol.

Fel rhan o'r cynnig hwn, mae'r dogfennau canlynol wedi'u creu:

- Dogfen Ymgynghori yn nodi'r cynnig (y ddogfen hon)
- Crynodeb o Hawliau Plant a Phobl Ifanc
- Asesiad Effaith Integredig

Darperir gwybodaeth ar wefan y Cyngor a chaiff yr holl ddogfennaeth ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mae ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill ar gais.

Ceir rhagor o fanylion mewn perthynas â'r prosesau a'r amserlenni yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn adran **'Y Camau Nesaf'**.

## Safbwyntiau plant am y cynnig

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod rhoi llais i bobl ifanc yn golygu eu cynnwys fel cyfranogwyr yn y broses o ddatblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiadau addysgol ac fel myfyrwyr a bod angen iddynt fod wrth wraidd y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso.

Mae gan bobl ifanc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n effeithio arnynt a dylid sicrhau bod pwys priodol yn cael ei roi ar eu barn yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai pobl ifanc wella'r broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â rhannu safbwyntiau a chymryd rhan fel dinasyddion a hwyluswyr newid.

Mae hyn hefyd yn amlwg yn adroddiad Estyn 'Cyfranogiad disgyblion: canllaw arferion gorau', sy'n dangos sut y gellir cyflawni buddiannau i ddisgyblion a helpu ysgolion i wella drwy alluogi pobl ifanc i gymryd rhan yn y broses.

Bydd Tîm Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yng Nghaerffili yn sicrhau y caiff trefniadau addas eu gwneud i ymgynghori â phobl ifanc a'u cynnwys yn y broses, yn ogystal ag ar ôl i'r gwaith ddod i ben, wrth gyflwyno unrhyw gynnig. Caiff fersiwn o'r Ddogfen Ymgynghori sy'n addas i blant ei chynhyrchu a chaiff unrhyw adborth gan ddisgyblion a Chynghorau Ysgol ei gynnwys yn y ddogfennaeth a anfonir ymlaen i'r Cabinet i'w hystyried unwaith i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

# PAM EIN BOD YN CYNNIG Y NEWIDIADAU HYN?

## Gwybodaeth Gefndir

Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn darparu addysg i ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ac mae ganddi gapasiti o 91 o leoedd, gyda nifer derbyn cyhoeddedig o 13.

Ym mis Chwefror 2014, cafodd yr ysgol ei hannog i gydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas er mwyn symud allan o fesurau arbennig ac i gefnogi ei rhagolwg ariannol. Yn sgil gweithredu hyn yn

llwyddiannus, a arweiniodd at gynnydd cychwynnol yn nifer y disgyblion a symud allan o fesurau arbennig, sefydlwyd Ffederasiwn Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhydri ac Ysgol Iau Bedwas yn ffurfiol ym mis Medi 2019.

Fodd bynnag, fe wnaeth y Pennaeth a'r Corff Llywodraethu gydnabod bod Ysgol Gynradd Rhydri yn wynebu diffyg ariannol sylweddol, gyda rhagamcan y byddai niferoedd y disgyblion yn gostwng ymhellach yn y dyfodol ac wnaethant droi at yr Awdurdod Lleol i gydweithio er mwyn edrych ar bob ateb posibl a modelau ariannol amrywiol i archwilio'r senarios adfer posibl.

O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, penderfynir ar gyllidebau ysgolion unigol gan ddefnyddio fformiwla gyllido y cytunir arni'n lleol yn unol â ffactorau sy'n cael eu harwain gan y dysgwyr. Mae'n rhaid i ysgolion allu dangos, trwy gynllun gweithredu ariannol, y bydd yr ysgol yn gweithio i gyflwyno cyllideb gytbwys.

Yn haf 2023, y cyngor oedd gostwng o 3 dosbarth i 2 ddosbarth er mwyn gwneud y mwyaf o'r amser sydd ar gael i'r ysgol adfer ei sefyllfa ariannol. Roedd y cyngor hwn wedi'i seilio ar gynseiliau llwyddiannus mewn awdurdodau lleol eraill a gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg. Ar y pryd, pleidleisiodd y Corff Llywodraethu o blaid y cynnig, fel y gwnaeth y staff yr effeithiwyd arnynt. Roedd y pwyslais ar estyn hyfywedd yr ysgol a lleihau'r effaith ar blant a'r addysg a gyflwynir.

Fodd bynnag, oherwydd pryderon a godwyd gan rieni, cafodd y penderfyniad ei wyrdroi gan y Corff Llywodraethol gan arwain at gadw 3 dosbarth yn yr ysgol a mynd ar drywydd disgyblion ychwanegol trwy ymgyrch farchnata ragweithiol a gynlluniwyd i gynyddu niferoedd disgyblion.

Wrth ystyried yr opsiwn gwahanol hwn, roedd yr Awdurdod Lleol wedi mynegi'n glir i Lywodraethwyr y posibilrwydd na fyddai gan yr ysgol unrhyw opsiwn ond cau, os na fyddai niferoedd y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol erbyn gwanwyn 2024. Yn y pen draw, roedd y Corff Llywodraethu o blaid awydd y rhieni i gadw 3 dosbarth ac yn erbyn cyngor yr Awdurdod Lleol, er gwaethaf risg cau'n gynt.

Er y nodwyd cynnydd cychwynnol yn nifer y disgyblion, yn ystod y cyfnod hwn, mae costau parhau â thair ystafell ddosbarth wedi parhau i gynyddu'r diffyg sy'n wynebu'r ysgol. Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/2024, adroddodd yr ysgol am ddiffyg o £22,000 yn y gyllideb ac, er gwaethaf torri'n ôl ym mhob maes a gweithio'n agos gyda'r Awdurdod Lleol, mae'r ysgol wedi cyflwyno'i ffigurau ar gyfer 2024/2025, gyda diffyg o £175,000 yn y gyllideb. Pan mae ysgol yn rhoi gwybod am ddiffyg yn y gyllideb, mae'n rhaid iddi lunio cynllun gweithredu 3 blynedd a fydd yn adfer y gyllideb i warged. Er bod opsiwn i archwilio hyn dros gyfnod 5 mlynedd gyda chaniatâd gan Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lleol, hyd yn oed dros gyfnod o 5 mlynedd, nid yw'n bosibl i'r ysgol gyflawni gwarged.

Ar adeg ysgrifennu, nifer y disgyblion y disgwylir iddynt fynychu'r ysgol ym mis Medi 2024 yw 39 disgybl (31 amser llawn ac 8 rhan-amser) gyda 79% o'r disgyblion hyn yn byw'r tu allan i ddalgylch yr ysgol. Ar sail y niferoedd a ddisgwylir ar gyfer Medi 2024, bydd nifer y lleoedd dros ben yn 62% a disgwylir y byddant yn cynyddu yn y dyfodol gan fod disgwyl y bydd nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn gostwng yn gysylltiedig â gostyngiad mewn cyfraddau genedigaethau byw yn yr ardal a dewis rhieni.

Archwiliwyd pob dewis rhesymol yn lle cau ac archwiliwyd pob trywydd a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu, gan gynnwys hyfywedd opsiwn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Fodd bynnag, mae nifer amcanol y disgyblion a'r rhagolwg o ddiffyg ariannol o ganlyniad yn peri her sylweddol i

allu'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol i gytuno ar gyllideb gytbwys i gynnal yr ysgol a lefel staffio briodol, sydd wedi arwain at gais gan y Corff Llywodraethu yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024 i'r Awdurdod Lleol ystyried cau'r ysgol ym mis Gorffennaf 2025 ac ymgymryd â'r Ymgynghoriad Statudol gofynnol.

## Cynllunio lleoedd ysgol

Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru sicrhau ei fod yn darparu digon o leoedd mewn ysgolion i ddisgyblion o bob oedran er mwyn darparu addysg o'r radd flaenaf iddynt a sicrhau bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol. Rhaid i bob Cyngor yng Nghymru hefyd ddarparu lleoedd sy'n diwallu anghenion disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg a ffydd yn ogystal â bod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

- **Ysgol Gynradd Rhydri**

| **Tabl 2: Niferoedd Disgyblion** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ysgol Gynradd Rhydri** | | |
| **Grŵp Blwyddyn** | **Fel yn Ionawr 2024** | **Fel yn Gorffennaf 2024** | **Rhagamcanol ar gyfer Medi 2024** |
| Meithrinfa | 6 (3 CAL) | 5 (2.5 CAL) | 8 (4 CAL) |
| Derbynfa | 7 | 4 | 6 |
| Blwyddyn 1 | 4 | 1 | 4 |
| Blwyddyn 2 | 9 | 7 | 1 |
| Blwyddyn 3 | 9 | 7 | 5 |
| Blwyddyn 4 | 6 | 3 | 3 |
| Blwyddyn 5 | 11 | 10 | 3 |
| Blwyddyn 6 | 9 | 9 | 9 |
| | | | |
| **TOTAL** | **61** (58 CAL) | **46** (43.5 CAL) | **39** (35 CAL) |

*CAL – Cyfwerth ag Amser Llawn gan fod disgyblion meithrin yn mynychu'r ysgol yn rhan amser yn unig.

## Galw Rhagamcanol

*Rhagamcaniadau*

Mae rhagamcaniadau'n cael eu cyfrifo ar sail tueddiadau hanesyddol; yna, mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ragamcan at y dyfodol.

*Gostyngiad yn y boblogaeth*

Er bod Caerffili yn bumed o ran cyfanswm poblogaeth a'r pedwerydd awdurdod lleol dwysaf ei phoblogaeth o blith 22 Awdurdod Lleol Cymru, nododd data cyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ostyngiad o 1.6% yn y boblogaeth gyfan, o oddeutu 178,800 yn 2011 i 175,900 yn 2021.  Mae hyn yn arbennig o amlwg yn y gostyngiad o 7.1% a welir yn nifer y plant o dan 15

oed, yn enwedig yn y grŵp oedran rhwng 0 a 4 oed, sydd â gostyngiad o 19%, sydd uwchlaw cyfartaledd Cymru.

| Tabl 3: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Data'r Boblogaeth ar gyfer Caerffili | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| 0-15 oed | 34,079 | 34,000 | 33,906 | 33,886 | 33,736 | 33,554 | 33,221 | 32,935 | 32,547 |

*Data Genedigaethau Byw*

Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn darparu data i'r Awdurdod Lleol am nifer y Genedigaethau Byw o fewn y Fwrdeistref Sirol. Gan adlewyrchu'r gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth, mae'r Awdurdod wedi gweld gostyngiad sylweddol yn nifer y genedigaethau byw.

| Tabl 4: Bwrdd Iechyd Lleol – Data Genedigaethau Byw ar gyfer Caerffili | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Nifer y plant sy'n gymwys i fynd i'r ysgol (a aned 3 blynedd yn gynt)* | | | | | | | | |
| **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** | **2026** |
| 2,048 | 2,037 | 1,963 | 1,959 | 1,765 | 1,715 | 1,539 | 1,682 | 1,561 |

Ar gyfer dalgylch Ysgol Gynradd Rhydri, cofnodwyd 7 genedigaeth fyw yn 2019/2020 a oedd, wedyn, yn gymwys i fynd i'r feithrinfa yn Ysgol Gynradd Rhydri o fis Medi 2023 ymlaen, yn amodol ar ddewis y rhieni. Ar sail gwybodaeth hanesyddol, mae disgwyl y byddai o'r plant hyn naill ai'n mynd i addysg cyfrwng Cymraeg neu i ysgol ffydd.

O'r rhain, dim ond 3 aeth i'r feithrinfa yn Ysgol Gynradd Rhydri ac mae hyn yn duedd hanesyddol gyson.

## SUT Y BYDD HYN YN EFFEITHIO AR YSGOLION ERAILL?

### Early Years Provision


Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydnabod gwerth a phwysigrwydd gofal plant fel elfen hanfodol o'r agenda gwrthdlodi yn ogystal â darparu amgylchedd cyfoethog, diogel a meithringar lle gall plant a phobl ifanc y fwrdeistref sirol ffynnu a chael hwyl. O'r herwydd, mae gan y Cyngor faes Gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar sy'n ymroddedig i reoli pob agwedd ar y farchnad gofal plant mewn modd cydgysylltiedig.

Nid oes gofal plant cofrestredig ynghlwm wrth Ysgol Gynradd Rhydri ar hyn o bryd, ond mae darparwyr gofal plant cofrestredig mewn ardaloedd cyfagos. Mae Ysgolion Cynradd lleol yn cynnig addysg y blynyddoedd cynnar i blant sy'n codi'n 3 oed, ac eithrio Ysgol Gynradd Machen. Mae digon o ddarparwyr gofal plant lleol sy'n cynnig gofal cofleidiol am ffi ynghyd â'r Cynnig Gofal Plant, lleoliadau gofal plant di-dreth a ariennir a rhai sydd hefyd yn cynnig lleoliadau Dechrau'n Deg a ariennir i blant cymwys. Ni ragwelir effaith niweidiol ar ddarparwyr gofal plant cyfagos i ateb y galw gan deuluoedd, ond mae tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yr

Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda darparwyr i’w cynorthwyo i ehangu, lle bo’r angen yn codi.

## Trefniadau'r Dalgylch

O’r 30 ward ym Mwrdeistref Sirol Caerffili, mae Ysgol Gynradd Rhydri yn rhan o Ward Machen a Rhydri.




Mae Ysgol Gynradd Rhydri wedi’i lleoli yn ardal Basn Caerffili ac mae’n ysgol sy’n bwydo Ysgol Gyfun Martin Sant.

Er mwyn sicrhau nad oes newid i’r dalgylch ar gyfer darpariaeth uwchradd, cynigir fod y dalgylch yn parhau yn nalgylch Ysgol Martin Sant.

I alluogi hyn, yr ysgol gynradd agosaf sydd â lleoedd ar gael i bob disgybl o Ysgol Gynradd Rhydri ar draws pob grŵp oedran, ac o fewn dalgylch Martin Sant, yw Ysgol Gynradd Sant Iago. Felly, pe bai’r Cabinet yn cytuno i’r cynnig hwn, bydd pob disgybl yn gallu pontio i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis y rhieni.

Darperir cludiant yn unol â Pholisi Cludiant y Cyngor.

## Effaith ar ysgolion eraill

Mae'r Cyngor yn ymwybodol o sicrhau bod unrhyw gynigion ysgol yn cael yr effaith leiaf bosibl ar ysgolion cyfagos.

Y rhain yw:

| **Tabl 5: Data Ysgolion Cyfagos** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Gallu Cyhoeddedig** | **Rhif Derbyn** | **Bwydo'r Ysgol i'r Ysgol Uwchradd** | **Pellter o Ysgol Gynradd Rhydri** |
| Ysgol Gynradd St James | 330 | 47 | Ysgol St Martins | 2.2 miles |
| Ysgol Gynradd y Twyn | 393 | 56 | Ysgol St Martins | 2.6 miles |
| Ysgol Fabanod Bedwas | 120 | 40 | Ysgol Uwchradd Bedwas | 2.6 miles |
| Ysgol Iau Bedwas | 173 | 43 | Ysgol Uwchradd Bedwas | 2.4 miles |
| Ysgol Gynradd Graig Y Rhacca | 210 | 30 | Ysgol Uwchradd Bedwas | 1.8 miles |
| Ysgol Gynradd Machen | 192 | 27 | Ysgol Uwchradd Bedwas | 2.2 miles |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Plasyfelin | 394 | 56 | Ysgol Uwchradd Bedwas | 3.4 miles |
| Ysgol Gynradd Tynywern | 223 | 31 | Ysgol Uwchradd Bedwas | 2.1 miles |

Ar sail nifer presennol y disgyblion, a’r ganran fawr o ddisgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd Rhydri sy’n byw’r tu allan i’w dalgylch, rhagwelir mai bach iawn o effaith fydd ar unrhyw rai o’r ysgolion cyfagos.

Mae gan ddalgylch newydd arfaethedig Ysgol Gynradd Sant Iago ddigon o leoedd i dderbyn yr holl ddisgyblion sy’n mynd i Ysgol Gynradd Rhydri ar hyn o bryd, yn amodol ar ddewis rhieni, a bydd yr holl ddisgyblion Blwyddyn 6 yn symud ymlaen yn naturiol i ddarpariaeth uwchradd, yn amodol ar ddewis rhieni.

### Amharu ar ddisgyblion

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, bydd y Tîm Derbyn i Ysgolion yn gweithio gyda rhieni i gefnogi’r pontio i ysgol newydd.

Gan mai’r cynnig hwn yw cau ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2025, ni fydd effaith ar ddarparu addysg yn ystod y flwyddyn ysgol.

### Darpariaeth Uwchradd

Mae Ysgol Gynradd Rhydri yn ysgol fwydo ar gyfer Ysgol Uwchradd St Martins ac mae dyraniad arfaethedig Ysgol Gynradd St James hefyd yn ysgol fwydo ar gyfer St Martins.. Felly, ni fydd y cynnig hwn yn cael unrhyw effaith ymddangosiadol ar y trefniant presennol ar lefel Uwchradd.

## BETH FYDD EFFAITH Y CYNNIG?

### Arweinyddiaeth, Ansawdd a Safonau Addysg

Estyn a'r Awdurdod Lleol sy'n monitro ansawdd a safonau ysgolion yng Nghaerffili. Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae'n un o gyrff y Goron a sefydlwyd o dan Ddeddf Addysg 1992. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ond yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae Estyn yn arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Ceir copïau o adroddiadau llawn yr ysgolion unigol ar wefan Estyn.

Bydd disgyblion sydd ym Mlwyddyn 6 ar hyn o bryd yn cael y cyfleoedd pontio arferol i baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn Ysgol Uwchradd Sant Martin neu rywle arall. Bydd hyn yn cynnwys cyfleoedd, cyn dechrau’r flwyddyn academaidd newydd, i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau meithrin perthynas wedi’u cynllunio ymlaen llaw gyda chyfoedion ar draws clwstwr Sant Martin. Bydd trafodaethau hefyd yn cael eu cynnal rhwng ysgolion i hyrwyddo parhad dysgu a sicrhau bod anghenion unigol yn cael eu diwallu yn y lleoliad newydd.

Bydd cyfarfodydd rheolaidd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r ysgol yn monitro sefydlu a chynnydd y grŵp hwn o ddisgyblion.

Yn yr un modd, bydd trefniadau pontio cadarn yn cael eu darparu ar gyfer disgyblion sy’n symud i ysgol gynradd arall. Bydd uwch arweinwyr Ysgol Gynradd St James yn cyfarfod yn fisol â’r Awdurdod Lleol drwy gydol 2024-25 i ystyried cynnydd yn erbyn argymhellion Arolygiad Estyn diweddar. Bydd y cyfarfodydd hyn hefyd yn nodi integreiddio disgyblion Ysgol Gynradd Rhydri i'w lleoliad newydd, gan nodi unrhyw gymorth pellach y gallai fod ei angen ar yr ysgol. Bydd disgyblion sy'n symud i ysgolion cynradd eraill yn destun y trefniadau pontio arferol rhwng ysgolion. Fel yr uchod, cynhelir trafodaeth rhwng ysgolion i hyrwyddo parhad dysgu a chodi ymwybyddiaeth o anghenion unigol.

## Trefniadau Llywodraethu

yddai’r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio’n ofalus i leihau unrhyw effaith negyddol. Yn amodol ar gymeradwyaeth, bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Rhydri yn cael ei ddirwyn i ben pan fydd yr ysgol yn cau.

Ar hyn o bryd, mae Ysgol Gynradd Rhydri wedi’i ffedereiddio gydag Ysgol Iau Bedwas ac mae’r ffederasiwn wedi’i sefydlu ers mis Chwefror 2019 ar ôl cyfnod llwyddiannus o gydweithredu. Yn amodol ar gymeradwyo’r cau, bydd y ffederasiwn yn dod i ben yn awtomatig a bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Iau Bedwas i sicrhau bod unrhyw brosesau statudol a chymorth yn cael eu dilyn.

## Materion yn ymwneud â'r Staff

Cynhelir trafodaethau pellach gyda’r ysgol wrth i’r cynnig symud yn ei flaen a bydd Tîm Adnoddau Dynol y Cyngor yn gweithio’n agos gyda phob parti perthnasol i sicrhau bod prosesau’n cael eu dilyn a bod cymorth yn cael ei ddarparu, yn ôl yr angen.

## Materion Ariannol

Mae nifer amcanol y disgyblion a’r rhagolwg ariannol o ganlyniad i’r ysgol yn peri her sylweddol i allu’r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol i gytuno ar gyllideb gytbwys i gynnal yr ysgol a lefel staffio briodol, sydd wedi arwain at gais i’r Awdurdod Lleol ystyried cau’r ysgol ym mis Gorffennaf 2025.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2023/2024, adroddodd yr ysgol ddiffyg o £22,000 yn y gyllideb ac, er gwaethaf torri’n ôl ym mhob maes a gweithio’n agos gyda’r Awdurdod Lleol, mae’r ysgol wedi cyflwyno’i ffigurau ar gyfer 2024/2025, sef diffyg o £175,000 yn y gyllideb. Pan fydd ysgol yn rhoi gwybod am ddiffyg yn ei chyllideb, mae’n rhaid iddi lunio cynllun gweithredu 3 blynedd a fydd yn adfer y gyllideb i warged. Er bod opsiwn i archwilio hyn dros gyfnod o 5 mlynedd gyda chaniatâd Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lleol, hyd yn oed dros gyfnod o 5 mlynedd, nid yw’n bosibl i’r ysgol gyflawni gwarged.

## Cyfleusterau Arbenigol / Anghenion Dysgu Ychwanegol

Un o brif gyfrifoldebau'r Cyngor yw sicrhau bod digon o leoedd i ddisgyblion yn y lleoliadau mwyaf priodol a sicrhau ei fod yn ymwybodol o newidiadau demograffig (h.y. cynnydd a

gostyngiadau ym mhoblogaeth disgyblion). Mae gofyn i'r Cyngor hefyd nodi strategaeth ym mhob rhan o'r awdurdod i greu darpariaeth gymunedol mewn ysgolion, yn ogystal â darpariaeth arbenigol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Ychwanegol neu anableddau.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod effaith Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r angen am ddiogelu darpariaeth at y dyfodol. Mae'r mathau cywir o ddarpariaeth a lefel ac ansawdd cywir y ddarpariaeth i fodloni anghenion y boblogaeth yn y dyfodol wedi cael eu hystyried.

Ar hyn o bryd, o'r 39 disgybl sy'n mynd i'r ysgol ym mis Gorffennaf 2024, roedd gan leiafrif ohonynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Er bod canran y plant ag ADY yn Rhydri efallai'n uwch nag mewn ysgolion eraill, mae'n rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun y nifer ar y gofrestr.

Mae'r system ADY unedig newydd yn sicrhau bod ymagwedd gydlynus ar draws pob ysgol at fodloni anghenion ADY, gyda chefnogaeth dda gan yr Awdurdod Lleol. Bodlonir anghenion mwyafrif y plant ag ADY mewn ysgolion prif ffrwd, trwy ddatblygu darpariaeth dysgu ychwanegol (DDY), fel y'i hamlinellir gan y Ddeddf a'r Cod ADY. Mewn ychydig bach iawn o achosion, roedd angen DDY ar blant, wedi'i gyflwyno trwy ganolfan adnoddau arbenigol neu mewn ysgol arbennig.

Mae gan yr Awdurdod Lleol feini prawf clir ar gyfer ystyried darpariaeth o'r fath ac ystyrir pob achos yn erbyn y meini prawf hynny yn unol â'r gyfraith, gan banel yn yr Awdurdod Lleol.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, byddai cau arfaethedig Ysgol Gynradd Rhydri yn golygu bod plant ag ADY yn trosglwyddo i ysgol newydd. Bydd y broses bresennol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ei gwneud hi'n haws rhannu gwybodaeth rhwng ysgolion, gan felly sicrhau bod yr ysgol newydd yn gallu ystyried sut i ddatblygu'r DDY i fodloni anghenion y disgyblion, a byddai adolygiad o unrhyw gynllun datblygu personol presennol yn digwydd adeg symud. Pe byddai angen darpariaeth arbenigol ar unrhyw rai o'r plant hyn, byddai hynny'n cael ei ystyried yn unol â phroses bresennol yr Awdurdod Lleol.

Mae datblygiad unrhyw ddarpariaeth arbenigol o fewn yr Awdurdod Lleol yn cael ei adolygu yn unol â dyletswyddau'r Awdurdod Lleol. Mae unrhyw ddatblygiad darpariaeth newydd ar draws y sir yn cael ei gysylltu ag angen a meini prawf presennol yr Awdurdod Lleol. Ni fyddai unrhyw rai o'r plant ag ADY sy'n mynychu Ysgol Gynradd Rhydri ar hyn o bryd o reidrwydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth bresennol yr Awdurdod Lleol, neu unrhyw ddarpariaeth newydd sy'n cael ei datblygu yn yr Awdurdod Lleol.

## Asesiad Effaith Integredig

Mae'r Cyngor hwn yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol, a byddwn yn gweithio yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a chyd-barch o fewn ein cymunedau a rhyngddynt.

Mae asesiadau o effaith yn ein helpu i ddangos sut y mae'r cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd i roi ystyriaeth i gydraddoldeb o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Maent yn ffordd o sicrhau bod y polisïau, yr arferion, y prosiectau a'r gweithgareddau sy'n llywio ein gwaith yn rhoi mynediad cyfartal i bawb i'n holl wasanaethau.

Mae asesiadau o effaith yn canolbwyntio ar p'un a yw'r newidiadau i'r ffordd rydym yn gwneud pethau (megis arferion gwaith neu'r ffordd rydym yn darparu gwasanaethau) yn debygol o gael

effaith gadarnhaol neu negyddol ar y bobl rydym yn eu gwasanaethu neu'r rheini sy'n darparu ein gwasanaethau. Maent yn ein helpu i gynllunio i leihau neu gael gwared ar effaith negyddol – er enghraifft drwy wneud newidiadau rhesymol i'r ffordd y mae grŵp penodol yn derbyn gwasanaeth (er enghraifft drwy ddarparu gwybodaeth mewn ffordd wahanol neu osod ramp mewn adeilad ac ati).

Bydd defnyddio cynllun newydd yr Asesiad Effaith Integredig yn llywio gwaith y Cyngor i sicrhau y ceir mynediad cyfartal i'r holl wasanaethau ac yn helpu i gefnogi'r Cyngor ymhellach i wneud penderfyniadau effeithiol ac ar sail gwybodaeth wrth sicrhau y cydymffurfir ag amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol – Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Ymgynghoriad Statudol v Athrawiaeth Disgwyliad Dilys ac Egwyddorion Gunning

Mae Asesiad Effaith Integredig llawn wedi'i gwblhau.
Mae'r ddogfen hon ar gael fel rhan o'r pecyn ymgynghori ar y wefan.

Fel crynodeb:

*Yr effaith ar y gymuned*

Yn amodol ar gymeradwyo’r cynnig a chau Ysgol Gynradd Rhydri, byddai adeilad a safle presennol yr ysgol wedyn yn cael eu dosbarthu’n rhai sydd y tu hwnt i ofyniad addysgol ac yn Ased Corfforaethol heb ei ddyrannu. Yna, byddai’r defnydd o’r adeilad a’r safle yn y dyfodol yn destun cyfres lem o brofion i sicrhau bod y Gymraeg a Defnydd Cymunedol Lleol yn cael eu blaenoriaethu. Byddai unrhyw grwpiau cymunedol presennol yn cael eu hannog i adleoli a byddem yn ymgynghori â nhw fel rhan o’r broses ymgynghori.

*Yr effaith ar ddarpariaeth Gymraeg*

Mae’r Cyngor yn ymrwymo i ddatblygu cyfleoedd am gyflwyno darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bo’n bosibl, ond mae’r cynnig yn mynd ati i wneud newidiadau sy’n gysylltiedig ag ysgol cyfrwng Saesneg a rhagwelir mai bach iawn o effaith a gaiff hyn ar y cynnig cyfrwng Cymraeg presennol sydd ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol.


## Cyflwr ac Addasrwydd adeiladau'r ysgol

**Ysgol Gynradd Rhydri**:

Wedi'i hadeiladu tua 1900 ac wedi'i lleoli yn Rhydri, mae'r ysgol yn gorchuddio cyfanswm o tua 0.1 Hectar, ac yn cynnwys 1 prif strwythur, 2 dros dro, Ystafell Staff a gofod Ymyrraeth, gyda gofod awyr agored cyfyngedig yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau'r cwricwlwm.

Y safle presennol | Cynllun o'r safle




Mae gan yr ysgol sgôr cyflwr o C, gradd Addasrwydd o D a chategori Tystysgrif Arddangos Ynni o G. O gymharu, mae gan Ysgol Gynradd Sant Iago, a gafodd adeilad newydd yn 2011, sgôr cyflwr C+ a gradd A ar gyfer addasrwydd, gydag C mewn Tystysgrif Ynni i'w Harddangos.

## BETH FYDD Y CYNNIG YN EI GYFLAWNI?

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet:

Symud disgyblion i Ysgol Gynradd Sant Iago, yn amodol ar ddewis rhieni

- Darperir cymorth Adnoddau Dynol i staff i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael
- Cau safle ysgol
- Cael gwared ar yr holl leoedd dros ben yn Ysgol Gynradd Rhydri
- Gostwng nifer y lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Sant Iago tua 10%
  *(ar sail darparu ar gyfer holl ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd Rhydri)*
- Ad-drefnu'r dalgylch
- Parhad pontio i addysg uwchradd
- Gofynion cludiant (dim ond 21% o ddisgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch)
- Ariannol
- Dirwyn y Ffederasiwn rhwng Ysgol Gynradd Rhydri ac Ysgol Iau Bedwas i ben

Bydd risgiau'n cael eu rheoli'n rhagweithiol yn unol â'n gweithdrefnau rheoli risg.

Bydd nifer o dimau yn yr Awdurdod yn cynnig cymorth ym mhob maes perthnasol, fel Adnoddau Dynol, Cludiant Ysgol, a Derbyn i Ysgolion, gan fabwysiadu dull y Tîm o Gwmpas yr Ysgol os bydd y cynnig hwn yn cael ei gymeradwyo, i gynorthwyo'r Corff Llywodraethu a'r Pennaeth i gau'r ysgol.

## Opsiynau

Archwiliwyd pob opsiwn rhesymol yn lle cau:

- Cydweithredu ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Chwefror 2014)
- Ffedereiddio ag Ysgol Iau Bedwas (gweithredwyd ym mis Medi 2019)
- Argymhelliad gan yr Awdurdod Lleol yn gysylltiedig â gostwng nifer y dosbarthiadau o 3 i 2 (heb ei dderbyn)
- Ymgyrch farchnata gan rieni
- Arweiniad Ariannol yn gysylltiedig â chynllun adfer ariannol 3 blynedd i gyflawni cyllideb warged (nid yw'r Corff Llywodraethu'n gallu cyflawni cyllideb warged)

Yn ogystal, archwiliwyd pob trywydd a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethu ac a godwyd yn y Cabinet ar 24 Gorffennaf 2024, gan gynnwys hyfywedd opsiwn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru, yr opsiwn i ymestyn i gynllun adfer ariannol 5 mlynedd, gyda chaniatâd y Swyddog Adran 151, ac ystyried darpariaeth ADY.

Felly, mae nifer amcanol y disgyblion a rhagolwg y diffyg ariannol o ganlyniad i'r ysgol yn peri her sylweddol i allu'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol i gytuno ar gyllideb gytbwys i gynnal yr ysgol a lefel staffio briodol, sydd wedi arwain at gais gan y Corff Llywodraethu yn eu cyfarfod ar 14 Mawrth 2024 i'r Awdurdod Lleol ystyried cau'r ysgol ym mis Gorffennaf 2025 ac ymgymryd â'r Ymgynghoriad Statudol gofynnol.

# Y CAMAU NESAF

## Y Cyfnod Ymgynghori a Dyddiadau Allweddol

### Bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn dechrau ddydd Llun 9 Medi 2024

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb hon ar gael yn electronig ar wefan y Cygnor. Am ragor o wybodaeth ewch i ein tudalennau gwe Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae Fersiwn Gryno Syml o'r ymgynghoriad hwn ar gael i Blant a Phobl Ifanc. Mae'r fersiwn hon a'r fersiwn lawn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a gellir hefyd gofyn am gopïau wedi'u hargraffu.

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall, er enghraifft print bras, neu os hoffech gael help i'w dehongli mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 01445 864817 neu YsgolionYr21ainGanrif@caerffili.gov.uk fel y gallwn wneud y trefniadau gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

### Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw hanner nos ddydd Mawrth 22 Hydref 2024

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.

## Hysbysiadau Statudol, Cyflwyno Adroddiadau a Gwneud Penderfyniadau

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd Cabinet Caerffili yn derbyn Adroddiad ar yr Ymgynghoriad a fydd yn nodi'r cynnig a'r holl sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ar y cam hwn, gall yr aelodau benderfynu p'un a ydynt am barhau gyda'r cynnig, gwneud newidiadau i'r cynnig neu roi'r gorau i'r cynnig.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn rhoi rhybudd o 28 diwrnod i dderbyn gwrthwynebiadau. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn golygu y bydd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn iddynt gael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, rhaid cyflwyno gwrthwynebiadau'n ysgrifenedig a'u hanfon i'r Cyngor o fewn 28 diwrnod.

Yna, bydd y Cabinet yn ystyried canlyniad yr Hysbysiad statudol mewn cyfarfod yn y dyfodol ac yn penderfynu p'un a gaiff y cynnig ei roi ar waith ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a ddarparwyd.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad gwrthwynebiad yn rhoi crynodeb o'r gwrthwynebiadau ac ymateb y Cabinet i'r gwrthwynebiadau hynny. Gall pawb weld yr adroddiad ar wefan y Cyngor a bydd copïau papur ar gael ar gais.

## Dweud eich dweud

Mae eich barn yn bwysig ac hoffem glywed eich barn am y newidiadau rydym wedi'u cynnig yn y ddogfen hon. Hoffem i chi ystyried y wybodaeth yn y ddogfen a chlywed p'un a ydych o blaid y cynnig ai peidio. Caiff pob barn ei chroesawu o blaid neu yn erbyn y cynnig. Dyma'ch cyfle chi i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu sut i weithredu.

Os hoffech gyflwyno sylwadau ar y cynnig, gallwch wneud hyn drwy wneud y canlynol:

- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein ar wefan y Cyngor
- Cwblhau'r ffurflen ymateb wedi'i hargraffu a'i dychwelyd trwy'r post
- Anfonwch eich e-bost i Dîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

## Mae eich sylwadau'n bwysig

Llenwch yr holiadur a'i ddychwelyd drwy'r post neu dros e-bost i:

**Ymateb i Ymgynghoriad 'Rhydri'**

d/o Tîm Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Tŷ Penallta
Parc Tredomen
Ystrad Mynach
CF82 7PG
Ysgolion21ainGanrif@caerffili.gov.uk



Noder mai dim ond sylwadau ysgrifenedig y gallwn eu derbyn, naill ai drwy'r ffurflen ar-lein, y ffurflen ymateb neu dros e-bost. Rhaid i chi gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post fel rhan o'r wybodaeth a ddarperir.